# Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

## CYP(3)-08-08(p.1): 11 Mehefin 2008

### Tlodi plant: Ymostyngiad gan Jane Hutt Y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

### Addysg a dileu tlodi plant

Mae addysg a dysgu gydol oes yn darparu cyfleoedd i bawb, ni waeth beth yw eu cefndir, eu cyfoeth, eu hiaith na'u hiechyd, i ennill gwybodaeth, sgiliau a phriodweddau y mae eu hangen arnynt i gymryd rhan lawn ym mhob agwedd ar gymdeithas fel dinasyddion hyderus. Caiff ein polisïau addysgol ar gyfer dysgwyr o bob oed eu priodoli ar gyfle cyfartal gyda chefnogaeth ychwanegol sylweddol ar gyfer y plant a'r teuluoedd hynny sydd dan anfantais benodol oherwydd tlodi. Rydym yn cydnabod y cyfraniad hanfodol y gall addysg a hyfforddiant ei wneud i sicrhau y caiff cylch tlodi ei chwalu'n deilchion.

### Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc

Mae Cynlluniau Plant a Phobl Ifanc yn rhoi mecanwaith allweddol yn lleol i gryfhau cydweithio, gan gynnwys yng nghyswllt tlodi plant. Mae pob Cynllun Plant a Phobl ifanc, yn Nod Craidd 7, yn rhoi sylw i dlodi plant a rhaid i bartneriaid lleol osod yn yr adran hon, neu drwy groes gyfeirio mewn adrannau nodau craidd eraill, eu camau gweithredu y cytunwyd arnynt a ddyluniwyd i effeithio ar dlodi plant a phobl ifanc.

Drwy gydweithio mewn ffordd wedi'i chydlynu, gall darparwyr gwasanaeth helpu i gynyddu incwm teulu, darparu gwasanaethau o ansawdd a sicrhau nad yw tlodi yn rhwystro plant a phobl ifanc rhag cymryd rhan mewn bywyd cymunedol. Mae Cynlluniau Plant a Phobl Ifanc hefyd yn mynnu y rhoddir mwy o sylw i blant a phobl ifanc sydd ag anghenion penodol neu sy'n ei chael hi'n anodd cyrraedd gwasanaethau, megis plant anabl a'r rheini sy'n derbyn gofal.

Mae eisiau mabwysiadu'r cynlluniau cyntaf, sy'n berthnasol i 2008-11 erbyn 31 Gorffennaf 2008 a'u cyhoeddi erbyn 30 Medi 2008. Mae'r Cynlluniau Drafft yn cael eu gwerthuso ar hyn o bryd a bydd y Cynlluniau terfynol a gyhoeddir yn rhoi tystiolaeth o'r camau sy'n cael eu cymryd ym mhob ardal awdurdod lleol/bwrdd iechyd lleol yng Nghymru.

Dan Ddeddf Plant 2004 mae'n ofynnol i awdurdodau lleol weithio gyda'u partneriaid i gyhoeddi Cynllun Plant a Phobl Ifanc, a fydd yn nodi sut y byddant yn gwella lles plant a phobl ifanc. Cynllun strategol 3 blynedd o hyd yw'r Cynllun Plant a Phobl Ifanc, sy'n cynnig gweledigaeth strategol, yn nodi'r blaenoriaethau y cytunwyd arnynt i gyfeirio gwaith pob partner, yn pennu targedau y cytunir arnynt ar y cyd ac yn rhoi sylfaen ar gyfer cydgomisiynu gwasanaethau. Hwn yw'r prif ddatganiad o'r bwriad i gynllunio ar gyfer plant a phobl ifanc ac mae'n rhaid i bob cynllun arall ei ystyried.

### Incwm a Gwaith

Er ei fod yn ymddangos yn yr adran Incwm a Gwaith, mae'r cyfrifoldeb dros Fynediad at Leoedd Gwarchodwyr Plant yn disgyn yn y portffolio Addysg.

### Mynediad at leoedd Gwarchodwyr Plant Cofrestredig

Mae Genesis Cymru yn un o brosiectau mawr Cronfa Gymdeithasol Ewrop mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol sy'n darparu lleoedd gofal plant i gefnogi rhieni i gael gafael ar gyflogaeth a hyfforddiant.

Prif grwp targed Genesis Cymru fydd y niferoedd mawr o rieni unigol sy'n economaidd anweithgar gan mai helpu'r grwp hwn i waith yw'r ffordd fwyaf cost effeithiol o sicrhau eu cynhwysiant cymdeithasol a llwybr allan o dlodi iddyn nhw eu hunain ac i'w plant. Mae rhieni unigol yn fwy tebygol o wynebu nifer o rwystrau rhag cymryd rhan gan gynnwys: diffyg hyder a hunan-barch; diffyg mynediad at ofal blant hyblyg fforddiadwy; dim cymwysterau cyfoes a diffyg cefnogaeth a sgiliau chwilio am swydd. Bydd Genesis yn darparu pecyn o gefnogaeth i chwalu'r rhwystrau hyn a helpu rhieni unigol i ddod yn economaidd weithgar. Gan fod gofal plant yn gallu cynnig cyfleoedd newydd i rieni gael gafael ar hyfforddiant a gwaith ac felly helpu teuluoedd allan o dlodi, bydd y prosiect hefyd yn helpu i gefnogi gofal plant mewn ardaloedd lle ceir angen.

### Blynyddoedd Cynnar

Mae cynnydd yng nghyswllt darparu gofal plant fforddiadwy cyffredinol ac, yn arbennig, gofal plant o ansawdd uchel am ddim ar gyfer plant 2 oed yn yr ardaloedd lle ceir yr angen mwyaf, yn un o ymrwymiadau Cymru'n Un.

Dechrau'n Deg yw ein mecanwaith darparu ar gyfer darparu gofal plant am ddim i blant 2 oed, sy'n helpu i ddiwallu'r cyntaf o saith nod craidd y Cynulliad ar gyfer plant, eu bod yn cael dechrau'n deg yn eu bywyd. Caiff y gofal plant o ansawdd rhan amser hwn ei dargedu at yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru a chaiff ei ddarparu ochr yn ochr â mesurau ataliol eraill megis gwasanaethau ymweliadau iechyd ychwanegol, rhaglenni iaith a chwarae a chyngor a dosbarthiadau magu plant.

At ei gilydd, mae Dechrau'n Deg yn rhoi £27 miliwn i awdurdodau lleol ar gyfer 2008-09 a rhagwelir y bydd yn codi i £32 miliwn erbyn 2010-11.

Rydym yn cynnig deddfu i osod gofyniad ar awdurdodau lleol i sicrhau darparu gofal plant am ddim ar gyfer plant 2 oed. Byddai'r gofyniad hwn yn gweithredu mewn ffordd debyg i'r gofyniad i ddarparu lleoedd addysg am ddim, ond byddai'n cael ei dargedu at ardaloedd difreintiedig ac nid yn gyffredinol.

Caiff tair haen o weithgarwch yn y Strategaeth Genedlaethol Sgiliau Sylfaenol i Gymru Geiriau'n Galw-Rhifau'n Cyfri eu targedu at y blynyddoedd cynnar. Nod y cynllun Dechrau Da yw rhoi "sachau llyfrau" i'r holl deuluoedd yng Nghymru am 9 mis a 18 mis. Mae iaith a chwarae/rhif a chwarae, er ei fod wedi'i dargedu at blant ifanc, hefyd yn cyflwyno rhieni i weithgareddau chwarae sy'n hybu sgiliau iaith a rhif. Caiff rhaglenni llythrennedd teulu a rhifedd teulu eu targedu at rieni a'u plant er mwyn torri'r cylch o sgiliau sylfaenol gwael a geir rhwng cenedlaethau.

Mae'r Cyfnod Sylfaen yn agwedd newydd at ddysgu ar gyfer plant 3 – 7 oed sy'n cyfuno Canlyniadau Dymunol ar gyfer Dysgu Plant cyn Oed Ysgol Gorfodol a Chyfnod Allweddol 1 y Cwricwlwm Cenedlaethol. Mae'n gwricwlwm datblygiadol cyfannol sy'n seiliedig ar anghenion y plentyn unigol i ddiwallu eu cam datblygu. Rydym hefyd yn rhoi sylw i anghenion grwpiau lleiafrifoedd a dan anfantais drwy strategaethau cynhwysiant i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb, ynysu pobl a thangyflawni.

Mae'n gwricwlwm sy'n seiliedig ar chwarae ac sy'n rhoi mwy o bwyslais ar ddysgu arbrofol a defnyddio'r awyr agored. Mae'r cwricwlwm yn cynnwys saith Maes Dysgu gyda Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Diwylliannol wrth galon y cwricwlwm.

Mae Pecyn Hyfforddi Cenedlaethol Cyfnod Sylfaen wedi cael ei ddatblygu i gefnogi hyfforddiant yn addysgeg ac athroniaeth yr agwedd newydd ar ddysgu ac addysgu. Mae'n ategu'r Fframwaith ar gyfer Dysgu Plant 3 i 7 oed yng Nghymru a'i ddeunyddiau cyfarwyddyd cefnogol. Mae rhagor o fodiwlau'n cael eu datblygu ar hyn o bryd.

Dechreuodd y Peilot ym mis Medi 2004 gyda 42 o ysgolion a lleoliadau ledled y 22 awdurdod lleol. Ym mis Medi 2007, ymunodd 42 o leoliadau/ysgolion eraill â'r Cyfnod Sylfaen ac fe'u hadwaenir fel yr ysgolion/lleoliadau dechrau'n gynnar.

Bydd cyflwyno statudol ar gyfer plant 3 i 5 oed yn dechrau fis Medi 2008. Mae'r Cyfnod Sylfaen yn cyflwyno cymarebau oedolyn/disgybl newydd o 1:8 ar gyfer plant 3 i 5 oed ac 1:15 ar gyfer plant 5 i 7 oed.

Mewn blynyddoedd cynnar, cyflawnwyd darpariaeth rhan amser 100% ar gyfer yr holl blant 3 oed yr oedd eu rhieni'n ei ddymuno.

### Cyrhaeddiad mewn ysgolion cynradd ac uwchradd

Ymrwymodd Llywodraeth y Cynulliad yn Y Wlad sy'n Dysgu: Gweledigaeth ar Waith, a gyhoeddwyd fis Hydref 2006, i adeiladu ar wybodaeth gyfredol am yr hyn sy'n gwneud lleoliadau dysgu effeithiol; i gryfhau ein system addysg ac i wella canlyniadau ar gyfer dysgwyr yng Nghymru.

Elfen allweddol o ddarparu'r ymrwymiad hwn yw'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion a gafodd ei lansio fis Chwefror eleni. Mae'r Fframwaith wedi cael ei ddatblygu ar y cyd gan Lywodraeth y Cynulliad, awdurdodau lleol, ysgolion a rhanddeiliaid allweddol eraill. Mae'r Fframwaith yn disgrifio sut y bydd pob partner yn cyfrannu at wella dysgu a lles plant a phobl ifanc mewn ysgolion ledled Cymru.

Mae gan ysgolion effeithiol ffocws cymunedol ac maent yn berthnasol i fywydau plant a phobl ifanc y tu allan i'r ysgol ac oriau ysgol, gan gydnabod amrywiaeth ieithyddol a diwylliannol. Er bod angen i bob ysgol gael ffocws cymunedol, mae hyn yn arbennig o bwysig yn ein cymunedau mwyaf difreintiedig, lle mae gan ysgolion rôl bwysig i'w chwarae wrth gynnig i blant a phobl ifanc y profiadau a'r cyfleoedd y mae eu cyfoedion mwy breintiedig yn eu cymryd yn ganiataol. Dylai ysgolion ymgysylltu â theuluoedd a'r gymuned yn gyffredinol, gan gynnwys busnesau, asiantaethau statudol eraill a'r sector gwirfoddol. Mae angen i ysgolion weithio hefyd gydag asiantaethau eraill i fynd i'r afael ag anghenion lles a dyheadau dysgwyr unigol o ran bod yn ddinasyddion. Pan fydd ysgolion yn gweithio gydag asiantaethau eraill i gyflwyno rhaglenni cydgysylltiedig, gellir harneisio'r ystod lawn o adnoddau ac arbenigedd i wella lles a chanlyniadau dysgwyr.

Nid yw'r Fframwaith yn fenter newydd, mae'n dod â'r rhaglenni gwaith cyfredol ynghyd ac yn adeiladu ar yr arfer gorau sydd ar gael i ddarparu dull gweithredu cydlynol a thrawsbynciol i wella effeithiolrwydd ysgolion yng Nghymru, gan roi dysgwyr a'u hanghenion yn y canol.

Caiff dosbarthiadau cynradd eu monitro er mwyn eu cynnal ar uchafswm o 30 o ddisgyblion. Bydd gweithredu'r cyfnod sylfaen yn dod â chymarebau oedolion/plant i lawr i 1 i 8 ar gyfer plant 3-5 oed ac 1 i 15 ar gyfer plant 5-7 oed.
Mae gweithgarwch cyllido a hyrwyddo ar gyfer y fenter brecwast am ddim mewn ysgolion ar waith ar gyfer 2007-08. Mae nifer yr ysgolion sy'n manteisio ar y cynnig nawr dros 500. Bwriedir i bob ysgol fod yn rhan o Gynlluniau Ysgolion Iach - Rhwydwaith Cymru.
Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n gweithio gydag ysgolion ac awdurdodau lleol, drwy fentrau megis Rhagori, i wella cefnogaeth ar gyfer ysgolion sy'n wynebu anawsterau sylweddol ac yn enwedig i ddarparu cefnogaeth ychwanegol ar gyfer plant dan anfantais.
Rhagori yw'r rhaglen gyntaf yng Nghymru yn benodol i dargedu ysgolion sydd â'r cyflawniad disgyblion gwaethaf.

Daeth y rhaglen Rhagori i fodolaeth o ganlyniad i swm canlyniadol i Gymru yng nghyllideb Canghellor y Trysorlys yng ngwanwyn 2006. Cytunodd y Cabinet y dylid cyfuno £13 miliwn y flwyddyn o'r arian ychwanegol hwn gyda'r £3 miliwn y flwyddyn a oedd eisoes wedi'i ymrwymo ar gyfer mynd i'r afael â pherfformiad gwael mewn ysgolion i gyllido rhaglen ddwy flynedd o hyd i gefnogi'r agenda cyfiawnder cymdeithasol mewn addysg. Roedd ysgolion yn gymwys ar gyfer grant Rhagori, os oedd ganddynt 50 neu ragor o ddisgyblion o oed addysg statudol, a bod o leiaf 20% o'r rheini'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. O ganlyniad, cafodd 648 o ysgolion o bob sector gyllid Rhagori i ddechrau. Dosbarthodd Llywodraeth y Cynulliad oddeutu £14.5 miliwn ym mhob blwyddyn i ysgolion Rhagori. Roedd yr arian newydd hwn wedi'i ddynodi i fynd i'r afael â'r cyswllt rhwng anfantais cymdeithasol-economaidd a thangyflawni addysgol. Ar ben hynny, aeth £1 miliwn y flwyddyn i awdurdodau lleol i gefnogi addysg plant sy'n derbyn gofal. O ganlyniad i setliad diweddar y gyllideb, mae £16.25 miliwn ar gael er mwyn caniatáu i'r rhaglen Rhagori barhau am drydedd flwyddyn

(2008-2009). Wedi hynny, bydd £6.29 miliwn ar gael ar gyfer Rhagori yn 2009-2010 a £1.03 miliwn yn 2010-2011.

Bydd Llwybrau Dysgu 14-19 yn darparu dull cyfannol at ddysgu a fydd o fudd anghymesur i bobl ifanc nad ydynt mor freintiedig drwy gynnig cyfuniad o gyrsiau priodol, profiadau a chyfleoedd ehangach a chefnogaeth dysgu a phersonol i ddiwallu eu hanghenion unigol. Rydym wedi ymgynghori ar y Mesur Dysgu a Sgiliau a fydd yn rhoi hawl statudol i'r holl ddysgwyr 14-19 gael dewis a chefnogaeth.

### Nifer y bobl ifanc 16-18 oed nad ydynt mewn Cyflogaeth, Hyfforddiant nac Addysg

Ers datganoli, rydym wedi llwyddo i wneud cynnydd. Mae ystod o weithgarwch wedi cyfrannu at leihau nifer y bobl ifanc NEET yng Nghymru, gan ein helpu i gyrraedd ein targed Gweledigaeth ar Waith 2007 i leihau cyfran y bobl ifanc NEET rhwng 16 ac 18 i 10%.

Ond ni allwn orffwys ar ein rhwyfau. Mae 10% o bobl ifanc NEET yn dal i olygu dros 12000 o unigolion ac nid yw llawer iawn ohonynt yn ymwneud â gweithgarwch cadarnhaol.

Mae Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru, ein Strategaeth Sgiliau a Chyflogaeth ddrafft, yn nodi ein gweledigaeth yng nghyd-destun sgiliau a chyflogaeth. Mae'n rhaglen uchelgeisiol iawn ac yn un sy'n berthnasol iawn i bobl ifanc NEET ac i'r rhai hynny sydd mewn perygl o ganfod eu hunain yn NEET.

Ar 12 Mai roeddem wedi cyhoeddi dogfen ymgynghori a oedd yn rhoi cynigion i roi sylw i anghenion penodol pobl ifanc NEET. Y ddogfen hon yw'r gyntaf mewn cyfres o bapurau ar thema sy'n mynd i'r afael â'r materion a godwyd yn Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru.

Mae amseriad yr ymgynghoriad hwn yn adlewyrchu'r pwysigrwydd a'r brys i gynyddu lefel cyfranogiad pobl ifanc mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant.

Ar gyfer pobl sy'n hyn na 18 oed ac nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant, rydym yn gweithio gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau a'r Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd i newid hawliau budd-daliadau er mwyn i bobl 18 oed sydd â hanes NEET gael eu rhoi ar y trac cyflym yn syth ar gyfer y Fargen Newydd.

Ar hyn o bryd rydym yn datblygu ein strategaeth ar gyfer codi nifer y lleoedd Prentisiaeth Modern yng Nghymru. Rydym eisoes ar ganol datblygu a threialu 2 fodel Prentisiaeth a Rennir, un mewn Adeiladwaith a'r llall mewn Peirianneg. Caiff y naill beilot a'r llall eu hanelu at annog rhagor o gyflogwyr bach a chanolig eu maint i gymryd rhan yn y rhaglen prentisiaeth.

### Cyrhaeddiad Addysgol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal

Buddsoddodd Llywodraeth y Cynulliad filiwn o bunnoedd y flwyddyn ar gyfer 2006-07 a 2007-08 er mwyn cael cefnogaeth ychwanegol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal sy'n dynesu at arholiadau allanol pan fyddant yn 16 oed.

Dengys yr arwyddion cynnar fod nifer sylweddol o ddisgyblion wedi elwa o gefnogaeth bersonol a hyfforddiant ychwanegol a ddarparwyd drwy'r cyllid grant Rhagori, er mwyn paratoi ar gyfer eu harholiadau'r haf yma (Mehefin 2008). Bydd defnydd awdurdodau o gyllid Rhagori yn y dyfodol yn cynnwys rhywfaint o waith ymyriadau cynnar yn ychwanegol at y gefnogaeth a'r rhaglenni dysgu personol ar gyfer pobl ifanc sy'n dynesu at arholiadau allanol pan fyddant yn 16 oed.

Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi rhoi ymrwymiad ariannol pellach o £1 miliwn ar gyfer pob un o'r 3 blynedd nesaf hyd at 2011 i barhau â'r grant LAC Rhagori. Yn 2007 roeddem wedi rhoi Grant Rhianta Corfforaethol un-tro gwerth £776,000 i awdurdodau lleol er mwyn cefnogi datblygiad addysgol, iechyd a lles plant sy'n derbyn gofal. Bwriad y grant oedd cefnogi'r grant Rhagori i annog plant sy'n derbyn gofal i fod yn greadigol gyda datblygiad cymdeithasol/addysgol ehangach mewn gweithgareddau megis datblygiadau allgwricwlaidd, chwaraeon, cerddoriaeth, llenyddiaeth, y celfyddydau ayb.

Y llynedd roeddem wedi cyhoeddi Tuag at Fywyd Sefydlog a Dyfodol Gwell**,** pedair cyfres o reoliadau ac arweiniad i gryfhau'r trefniadau lleoli ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Prif nod y newidiadau yw sicrhau bod plant yn cael eu lleoli ger eu cartref pan fydd hynny'n bosibl mewn lleoliadau sy'n diwallu eu hanghenion gan gynnwys unrhyw anghenion iechyd neu addysg arbennig a bod gwasanaethau'n cael eu cydlynu ar draws asiantaethau a'u bod yn cael eu darparu gan bobl allweddol.

Yn ystod haf 2008 bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru'n ymgynghori ar Strategaeth ar gyfer Plant Agored i Niwed (gan gynnwys plant sy'n derbyn gofal ac yn gadael gofal). Bydd y strategaeth wedi'i phriodoli ar atal, ymyriadau cynnar a chefnogaeth i deuluoedd sy'n cyd-fynd â'n strategaeth deg mlynedd ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol. Y cerbydau allweddol ar gyfer mynd â'r strategaeth rhagddi fydd cymalau ar y cyd rydym wedi'u sicrhau yn y Mesur Plant a Phobl Ifanc a Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol ar gyfer Plant Agored i Niwed a Thlodi Plant. Bydd y Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol yn rhoi pwerau ehangach i Lywodraeth y Cynulliad ddeddfu ar gyfer plant agored i niwed i ddiwallu blaenoriaethau ac amserlenni Cymru.

Mae'r Grwp Rhanddeiliaid Addysg yn parhau i gwrdd a chael golwg gyffredinol o'r holl agweddau ar addysg a phlant sy'n derbyn gofal.

### Cyrhaeddiad addysgol ymysg oedolion

Mae'r Strategaeth Genedlaethol Sgiliau Sylfaenol i Gymru Geiriau'n Galw-Rhifau'n Cyfri a lansiwyd ym mis Ebrill 2005 yn strategaeth pum mlynedd o hyd a fydd ar waith tan 2010. Mae'n strategaeth ar gyfer pob oed sy'n adlewyrchu'r angen am ymyriadau wedi'u targedu ar draws cenedlaethau. Pwrpas y strategaeth hon yw cael y nifer fwyaf bosibl o bobl i gyflawni lefel llythrennedd a rhifedd sy'n eu galluogi i weithredu a symud ymlaen mewn gwaith ac mewn cymdeithas yn gyffredinol.

Ceir llawer o ddogfennau am y cysylltiadau rhwng lefelau llythrennedd a rhifedd isel, amddifadedd a thlodi plant. Er enghraifft, mae'n

debygol mai menywod â sgiliau llythrennedd gwael fydd y cyntaf i ymuno â chyflogaeth – a'r cyntaf i'w gadael. Ym mhob blwyddyn o fod yn 22 oed maent wedi cael y gyfran isaf yn gweithio ar sail amser llawn. Mae gan gyfran uchel o rieni sengl sgiliau sylfaenol gwael. Roedd 24% o ddynion rhwng 19 a 24 oed â sgiliau darllen gwael yn ddi-waith, o'i gymharu â 6% o'r rheini â sgiliau da. Mae rhieni gyda sgiliau sylfaenol gwael yn fwy tebygol o fagu plant gyda sgiliau sylfaenol gwael. Maent yn annhebygol o fod â llyfrau gartref a'r lleiaf tebygol y darllenwyd iddynt pan oeddent yn blant.

Mae hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth o faterion sy'n ymwneud â sgiliau sylfaenol yn un o'r nodweddion allweddol o'r gefnogaeth ar gyfer sgiliau sylfaenol yn y sector oedolion. Cafodd yr ymgyrchoedd "Darllena gyda Fi" a "Siarada gyda Fi" eu targedu'n bennaf at rieni a gofalwyr ifanc. Mae noddi'r gwobrau addysg oedolion a rhoi cyhoeddusrwydd i'r mentrau yn y strategaeth yn rhan o'r broses o gael newid mewn diwylliant. Caiff hyn ei ategu gan gynhyrchu adnoddau – naill ai fel rhan o fentrau unigol, megis y gyfres "Llyfryn Defnyddiol Iawn" a ddatblygwyd yn y rhaglen Addewid Cyflogwr neu yn eu rhinwedd eu hunain, megis y llyfrau "Stori Sydyn" a anelir at annog darllenwyr amharod i newid eu hagweddau at ddarllen yn ogystal â darparu adnoddau ar gyfer gwella dysgwyr sgiliau sylfaenol.

Mae'r Strategaeth Sgiliau Sylfaenol hefyd yn nodi grwpiau targed yn nod cyffredinol diwallu anghenion dysgwyr sgiliau sylfaenol. Prosiectau Cefnogaeth cenedlaethol a dargedir at bobl ifanc sydd mewn perygl o gael eu gwahardd, dysgwyr ESOL, dysgwyr sgiliau sylfaenol Cymraeg. Mae troseddwyr a chyn droseddwyr a cheiswyr gwaith yn ogystal â grwpiau mewn perygl yn y gymuned wedi codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth, darparu adnoddau, gwella rhwydweithiau a chefnogi adnabod angen er mwyn gallu cyfeirio dysgwyr at ddarpariaeth. Mae prosiect cefnogaeth penodol arall wedi defnyddio llythrennedd ariannol fel cyd-destun perthnasol ac ystyrlon i wella sgiliau sylfaenol a'r pwyslais arbennig yn y prosiect hwn fu ar ddysgwyr yn y grwp oed 14-19.

Mae Llywodraeth y Cynulliad a'i phartneriaid wedi gwneud cynnydd sylweddol yn y blynyddoedd diwethaf mewn gwella sgiliau'r gweithlu yng Nghymru. Mae ein hagwedd pob oed at ddatblygu sgiliau wedi darparu amrywiaeth o raglenni i helpu oedolion i ennill y sgiliau y mae eu hangen arnynt i naill ai gael cyflogaeth neu wella eu lefel o sgiliau yn y gwaith. Rhwng 2001 a 2006, gwelsom gyfran yr oedolion oed gweithio heb unrhyw gymwysterau yn gostwng tua 6 y cant, tra bod cyfran y rhai gyda chymhwyster lefel 2 wedi cynyddu 7 pwynt canran. Serch hynny, rydym yn cydnabod bod angen gwneud mwy. Maes o law byddwn yn cyhoeddi ein strategaeth ar gyfer gwella'r sylfaen sgiliau a chyflogaeth yng Nghymru. Bydd Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru yn rhoi dull gweithredu cynhwysfawr ar gyfer mynd i'r afael â'r sialensiau sgiliau a chyflogaeth sy'n wynebu pob rhan o Gymru.

Yn y dull gweithredu cyffredinol arfaethedig ar gyfer mynd i'r afael ag anweithgarwch economaidd a chodi cyfradd cyflogaeth Cymru a gwella lefelau sgiliau, bydd y cynigion yn cydnabod bod angen targedu'r ardaloedd lle ceir yr angen mwyaf.

### Materion ehangach

### Gordewdra plant

Mae lefelau cynyddol o ordewdra plant ac effaith hynny ar iechyd a lles yn achos pryder i bawb, yn enwedig mewn perthynas â lleihau anghydraddoldebau iechyd. Mae deiet gwael yn ffactor mawr sy'n cyfrannu ac mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ysgwyddo swyddogaeth ragweithiol i fynd i'r afael â nifer o'r materion sy'n gysylltiedig â hyn.

Gwyddom fod deiet cytbwys yn hanfodol i'n plant a'n pobl ifanc os ydynt am ddatblygu a thyfu yn oedolion iach. A chofio hyn, ar 22 Tachwedd 2007, lansiais y Cynllun Gweithredu Blas am Oes sy'n nodi'r cyfeiriad strategol a'r gweithredu y mae ei angen i wella safonau maethol bwyd a diod a ddarperir drwy gydol y diwrnod ysgol. Mae'r Cynllun Gweithredu hwn yn rhan hanfodol o gynllun gweithredu pum mlynedd Llywodraeth Cynulliad Cymru "Bwyd a Ffitrwydd: Hybu Bwyta'n Iach a Gweithgarwch Corfforol i Blant a Phobl Ifanc yng Nghymru". Mae'n nodi rhai o'r ffyrdd rydym yn helpu i gefnogi rhieni, plant a phobl ifanc yn eu hymdrechion i fwyta'n dda, aros yn ffit a chyrraedd y safon iechyd uchaf sy'n bosibl.